DEDDF GWAHARDD RASIO MILGWN (CYMRU) 2026

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Gwahardd Rasio Milgwn 2026 a basiwyd gan Senedd Cymru ar 17 Mawrth 2026 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 27 Ebrill 2026.

2. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.

CRYNODEB

3. Mae chwe adran a dwy Atodlen i'r Ddeddf. Mae'n gwahardd rasio milgwn (fel y'i diffinnir) yng Nghymru.

SYLWADAU AR YR ADRANNAU

Adran 1 – Gwahardd rasio milgwn

4. Mae adran 1(1) yn cyflwyno dwy drosedd newydd. Yn gyntaf, mae adran 1(1)(a) yn ei gwneud hi'n drosedd i weithredwr stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru ei ddefnyddio, neu dan wybod iddo ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio, i 'rasio milgwn'. Diffinnir 'rasio milgwn' a 'gweithredwr' yn adran 2 (gweler 'Adran 2 – Dehongli' isod).

5. Yn ail, mae adran 1(1)(b) yn ei gwneud hi'n drosedd i berson fod ynghlwm wrth drefnu 'rasio milgwn' (fel y'i diffinnir yn adran 2) sy'n digwydd yng Nghymru neu y bwriedir iddo ddigwydd yng Nghymru. Mae'r ail drosedd hon yn gymwys i unrhyw un (yn wahanol i'r drosedd gyntaf, nid yw'n gyfyngedig i 'weithredwyr' stadia neu leoliadau tebyg) a gallai'r rasio ddigwydd yn unrhyw le (nid dim ond mewn stadiwm neu leoliad tebyg).

6. Effaith adran 1(2) yw bod y rhain yn droseddau diannod ac felly fe'u gwrandewir mewn llysoedd Ynadon. Os ceir rhywun yn euog, caiff y llys osod dirwy (nad yw'r Ddeddf yn ei gapio).

Adran 2 - Dehongli

7. Diffinnir 'rasio milgwn' a 'gweithredwr' yn adran 2.

8. Mae'r term 'rasio milgwn' yn berthnasol i'r ddwy drosedd a grëir gan adran 1(1). Fel y'i diffinnir gan adran 2(a), mae'n golygu 'cymell milgwn i redeg o amgylch trac ar ôl llith sydd wedi ei actifadu'n fecanyddol (ac mae hyn yn cynnwys amseru neu hyfforddi milgi wrth iddo redeg o amgylch trac)'. Yn ogystal â chwmpasu rasio milgwn yn erbyn ei gilydd, mae'r diffiniad yn cynnwys y gweithgareddau canlynol (ar yr amod eu bod yn cynnwys cymell un neu ragor o filgwn i redeg o amgylch trac ar ôl llith sydd wedi ei actifadu'n fecanyddol):
    a. 'treialon' (pan fo milgi yn cael ei amseru at ddiben pennu ei safle, neu gategori ras, naill ai mewn perthynas â ras ddilynol, neu at ddiben gwerthu'r milgi);
    b. hyfforddi milgi i redeg ar ôl llith sydd wedi ei actifadu'n fecanyddol.

9. Dim ond i'r drosedd a grëir gan adran 1(1)(a) y mae'r term 'gweithredwr' yn gymwys. O dan adran 2(b), ystyr 'gweithredwr' yw perchennog y stadiwm neu'r lleoliad ac, os yw hwnnw'n berson gwahanol i'r perchennog, person sy'n gyfrifol am weithrediad y stadiwm neu'r lleoliad (hwn fydd naill ai'r person sy'n 'bennaf gyfrifol' am ei weithrediad, neu os nad yw'r person hwnnw yn bresennol yn y Deyrnas Unedig, y person yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am ei weithrediad).

10. Gweler hefyd baragraffau 11, 15 ac 16 o'r Nodiadau Esboniadol hyn am wybodaeth am unigolion a all fod yn atebol pan fo'r drosedd yn cael ei chyflawni gan gyrff penodol megis cwmnïau, partneriaethau etc.

Adran 3 – Troseddau gan gyrff corfforedig etc.

11. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 1 i'r Ddeddf sy'n gwneud darpariaeth ynghylch achosion pan fo trosedd o dan adran 1 yn cael ei chyflawni gan gorff corfforedig, partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth (gweler 'Atodlen 1 – troseddau gan gyrff corfforedig etc.' isod).

Adran 4 – Gorfodi'r gwaharddiad ar rasio milgwn

12. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 2 i'r Ddeddf sy'n gwneud darpariaeth ynghylch gorfodi'r troseddau o dan adran 1 (gweler 'Atodlen 2 – pwerau gorfodi' isod).

Adran 5 - Adolygu ar ôl deddfu

13. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf, a'r cydymffurfedd â hi. Rhaid i'r adolygiad gael ei gwblhau cyn diwedd y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r gwaharddiad o dan adran 1 yn dod i rym. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad.

Adran 6 - Dod i rym

14. O ganlyniad i adran 6, rhaid i'r gwaharddiad ar rasio milgwn gael ei ddwyn i rym heb fod cyn 1 Ebrill 2027 a heb fod ar ôl 1 Ebrill 2030.

Atodlen 1 – Troseddau gan gyrff corfforedig etc.

15. Mae paragraff 1 yn darparu y gall unigolion penodol fod yn atebol o ran cyfraith trosedd am y troseddau o dan adran 1 pan gânt eu cyflawni gan, er enghraifft, gwmni, partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig. Golyga hyn, er enghraifft, y gallai cyfarwyddwr cwmni fod yn atebol o ran cyfraith trosedd am y drosedd pan fo'r cwmni y mae'r person yn gyfarwyddwr arno wedi cyflawni'r drosedd.

16. Mae paragraff 2 yn nodi sut y mae achos i'w ddwyn yn erbyn partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig pan honnir ei bod wedi cyflawni trosedd o dan adran 1.

Atodlen 2 – Pwerau gorfodi

17. Mae Atodlen 2 yn rhoi pwerau i arolygwyr (a benodir gan Weinidogion Cymru neu gan gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol) i orfodi'r troseddau o dan adran 1. Mae hefyd yn creu troseddau pan fo person yn rhwystro arolygydd (gweler paragraff 27 isod).

18. Mae paragraff 2 yn rhoi pŵer i arolygwyr i fynd i fangre nad yw'n annedd, pan fo seiliau dros amau bod trosedd wedi ei chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni yn y fangre, neu y gellir dod o hyd i dystiolaeth bod trosedd wedi ei chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni.

19. Mae paragraff 3 yn rhoi pŵer i arolygwyr i fynd i anheddau. Ni chaiff yr arolygydd ond defnyddio'r pŵer hwn os yw meddiannydd y fangre neu'r person sy'n gyfrifol am y fangre yn cydsynio, neu fod yr arolygydd yn cael gwarant gan Ynad (ynad heddwch). Mae paragraff 4 yn darparu bod gwarant o'r fath yn awdurdodi mynd i'r fangre unwaith yn unig a bod rhaid ei defnyddio o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y'i dyroddir.

20. Mae paragraff 5 yn ei gwneud yn ofynnol i arolygydd, os gofynnir iddo gan berson yn y fangre, ddangos tystiolaeth o bwy ydyw cyn defnyddio pŵer mynediad a dweud pam y defnyddir y pŵer. Os bydd arolygydd yn mynd i annedd o dan warant, rhaid iddo, os gofynnir iddo, ddangos copi o'r warant i unrhyw un yn y fangre, a darparu copi i feddiannydd y fangre neu berson yr ymddengys ei fod yn gyfrifol am y fangre. Os nad yw'r naill na'r llall yn bresennol, rhaid i'r arolygydd adael copi o'r warant mewn man amlwg a gadael y fangre wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag y'i cafwyd pan gyrhaeddodd yr arolygydd.

21. Mae paragraff 6 yn ei gwneud yn ofynnol i arolygydd ond defnyddio pŵer mynediad ar adegau rhesymol, oni fydd yn credu, drwy aros am adeg resymol, y byddai diben cael mynediad (e.e. chwilio am dystiolaeth) wedi ei lesteirio.

22. Mae paragraff 7 yn caniatáu i arolygydd, os oes angen, ddefnyddio grym rhesymol i fynd i fangre.

23. Mae paragraff 8 yn caniatáu i arolygydd fynd â phersonau eraill a chyfarpar a deunyddiau i'r fangre i'w gynorthwyo i gyflawni ei ddyletswyddau. Gallai hynny, er enghraifft, gynnwys cwnstabl yr heddlu.

24. Mae paragraff 9 yn disgrifio'r pwerau arolygu, chwilio ac ymafael sydd ar gael i arolygydd wrth arfer pŵer mynediad. Mae paragraff 9(c) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson yn y fangre roi cymorth i'r arolygydd. Gallai arolygydd, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu mynediad i gytiau neu i gerbydau. Nid yw'r pwerau hyn yn ymestyn i ganiatáu i arolygydd ymafael mewn ci.

25. Mae paragraff 10 yn darparu y caiff person yr eir ag ef i'r fangre gan yr arolygydd arfer pwerau'r arolygydd o dan baragraff 9, ar yr amod bod y person o dan oruchwyliaeth yr arolygydd.

26. Mae paragraff 11 yn gwneud darpariaeth ychwanegol ynghylch y pŵer ymafael. Gellir cadw eitemau yr ymafaelwyd ynddynt cyhyd ag y bo angen; rhaid cadw cofnodion o eitemau yr ymafaelwyd ynddynt (a'u rhannu, ar gais meddiannydd neu rywun a oedd â'r eitem yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth), ac ni chaiff arolygwyr ymafael mewn eitemau a gwmpesir gan fraint broffesiynol gyfreithiol, megis gohebiaeth gyfrinachol rhwng cyfreithiwr a chleient.

27. Mae paragraff 12 yn darparu bod person yn cyflawni trosedd os yw, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â chais arolygydd am gymorth, neu os yw'n rhwystro arolygydd yn fwriadol. Gwrandewir trosedd o dan y paragraff hwn yn y llys Ynadon, a gaiff osod dirwy (nad yw wedi ei gapio gan y Ddeddf).

28. Mae paragraff 13 yn diogelu arolygwyr a phobl yr eir â hwy i fangre gan arolygwyr rhag atebolrwydd cyfreithiol am unrhyw beth a wneir neu nas gwneir o ganlyniad i gyflawni eu dyletswyddau. Ond nid yw hyn yn gymwys os gwnaethant weithredu mewn modd nad yw'n ddidwyll neu os nad oedd unrhyw seiliau rhesymol dros weithredu yn y ffordd y gwnaethant.

Adran 7 – Enw byr

29. Mae'r adran hon yn sefydlu teitl y Ddeddf fel y 'Deddf Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) 2026, y gellir ei ddefnyddio wrth enwi'r Ddeddf ac wrth gyfeirio ati. Caniateir defnyddio naill ai enw Cymraeg neu enw Saesneg y Ddeddf, gan gynnwys fel cyfeiriad mewn deddfiadau eraill.

COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU

30. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar: https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=46468

Cyfnod	**Dyddiad**
Cyflwynwyd	29 Medi 2025
Cyfnod 1 - Dadl	16 Rhagfyr 2025
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau	28 Ionawr 2026
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau	10 Mawrth 2026
Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Senedd	17 Mawrth 2026
Y Cydsyniad Brehinol	27 Ebrill 2026